
Enw




DARLLENWCH
Genesis 3: 1- 24



ADNOD ALLWEDDOL
Rhufeiniaid 5: 12

*Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.*

## Stori 4 Byd Duw yn cael ei ddifetha.



Pan wnaeth Duw y byd, roedd popeth yn berffaith. Doedd dim afiechyd, tristwch na marwolaeth. Ond un diwrnod, dyma Satan, gelyn Duw, yn dod i'r ardd yn edrych fel sarff. Dywedodd Satan wrth Efa, pe byddai'n bwyta ffrwyth y "Pren Gwybodaeth Da a Drwg", byddai mor glyfar â Duw!

C **Pwy yw gelyn Duw?** _ _ _ _ _ .

**Â phwy siaradodd Satan?** _ _ _ .

4

Gwrandawodd Efa ar Satan a bod yn anufudd i Dduw gan gymryd peth o'r ffrwyth. Fe roddodd beth i Adda a dyma'r ddau yn ei fwyta.



C **Rhowch gylch o gwmpas y pethau wnaeth Efa.**

**GWRTHODODD EFA WRANDO AR SATAN**

**ROEDD EFA'N ANUFUDD I DDUW**

**RHODDODD EFA BETH O'R FFRWYTH I ADDA**

4


## Dydyn ni ddim i fod yn anufudd i Dduw!

Mae'n rhaid i ninnau hefyd ddewis rhwng da a drwg ac, fel Adda ac Efa, rydyn ni'n gwneud y dewis anghywir weithiau!

Y noson honno, roedd Duw am siarad ag Adda ac Efa. Ond roedden nhw'n gwybod eu bod nhw wedi bod yn anufudd i Dduw ac fe geision nhw guddio oddi wrtho. Galwodd Duw arnyn nhw, "Adda, lle wyt ti?". Roedd Duw'n gwybod eu bod nhw wedi bwyta'r ffrwyth.

Er ei fod yn dal yn eu caru, roedd rhaid iddo'u cosbi nhw. Anfonodd Duw Adda ac Efa allan o'r ardd.

Roedd eu pechod wedi difetha'r hyn yr oedd Duw wedi ei greu ac wedi dod rhyngddyn nhw a Duw.
Mae pechod bob amser yn difetha pethau.
Mae'n ein gwneud ni'n drist ac yn difetha byd Duw.
Am fod Adda ac Efa wedi bod yn anufudd, dechreuodd drain ac ysgall dyfu. Dechreuodd anifeiliaid a phobl fynd yn sâl ac, yn waeth na dim, daeth marwolaeth i'r byd.




**C Gorffennwch y brawddegau hyn:**

Mae pechod bob amser yn d __ __ __ ___ __ p __ ___ __ __.

Daeth pechod â m__ __ __ __ __ __ __ ___ i'r byd.

6



Er bod Duw wedi'i siomi'n ofnadwy yn Adda ac Efa, wnaeth e ddim anghofio amdanyn nhw. Addawodd Duw y byddai Satan yn cael ei ddinistrio rhyw bryd ac y byddai yna ffordd wedyn i bobl fod yn ffrindiau ag ef eto.

Fe ddigwyddodd hyn i gyd pan ddaeth Iesu Grist i'r byd. Roedd bywyd Iesu'n berffaith. Roedd bob amser yn ufudd i Dduw. Ond, pan fu farw ar y groes, cafodd ei gosbi am bechodau'r holl fyd.

---

Fe gawn ni faddeuant pan wnawn ni ymddiried yn Iesu, sydd wedi cael ei gosbi am ein pechodau ni. Os gwnawn ni ymddiried yn Iesu, gallwn ddiolch iddo a dod i nabod Duw fel ein Tad a'n Ffrind.

---

**C Lliwiwch y geiriau hyn a dysgu'r Adnod Allweddol:**

**"Mae gennym heddwch â Duw trwy ein**

**Harglwydd Iesu Grist."**

**Rhufeiniaid 5: 1**

6

**cyfanswm**

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 A1

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120